COFNODION CYFARFOD BWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU A GYNHALIWYD AR ZOOM DDYDD MERCHER, 3 CHWEFROR 2021

PRESENNOL

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Ceredigion:

Cyng. Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a'r Aelod Cabinet dros Bolisi, Perfformiad, Partneriaethau a Gwasanaethau Democrataidd **(EAG) (Cadeirydd)**
Cyng. Dafydd Edwards: Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn ogystal â Thai **(DE)**
Cyng. Catrin Miles: Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dysgu a Dysgu Gydol Oes **(CM)**
Cyng. Rhodri Evans: Aelod Cabinet yr Economi ac Adfywio **(RE)**
Cyng. Gareth Lloyd, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyllid a Chaffael a Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd **(GL)**

Aelodau Cabinet Cyngor Sir Powys:

Cyng. Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys **(RH)**
Cyng. Aled Davies, Deiliad y Portffolio Cyllid, Cefn Gwlad a Thrafnidiaeth **(AD)**
Cyng. Phyl Davies, Deiliad y Portffolio Addysg ac Eiddo **(PD)**
Cyng. Heulwen Hulme, Deiliad Portffolio yr Amgylchedd **(HH)**
Cyng. Iain McIntosh, Deiliad y Portffolio Datblygu Economaidd, Cynllunio a Thai **(IM)**

Fiona Stewart, Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd **(FS)**

Swyddogion:

Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Caroline Turner, Prif Weithredwr Cyngor Sir Powys **(CT)**
Nigel Brinn, Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Clive Pinney, Cyfreithiwr y Cyngor, Cyngor Sir Powys **(CP)**
Carwyn Jones-Evans, Rheolwr Strategol Bargen Twf Canolbarth Cymru **(CJE)**
Paul Griffiths, Cynghorydd **(PG)**
Russell Hughes-Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: yr Economi ac Adfywio, Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**

1.	**CROESO AC YMDDIHEURIADAU / WELCOME AND APOLOGIES**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.	**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL / DECLARATIONS OF PERSONAL INTEREST**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

3.	**COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF/ MINUTES OF THE LAST MEETING 4/12/2020**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 4ydd Rhagfyr 2020 yn gofnod cywir.

DRAFT

4.	**BARGEN TWF CANOLBARTH CYMRU: ADRODDIAD CYNNYDD A CHAMAU NESAF/ MID WALES GROWTH DEAL: PROGRESS BRIEFING AND NEXT STEPS**

Rhoddodd CJE ddiweddariad ar y gwaith sy'n mynd ymlaen ers i'r Arweinwyr arwyddo Penawdau'r Telerau gyda Gweinidogion ar 22ain Rhagfyr. Yn sgil arwyddo Penawdau'r Telerau roedd gwaith ar droed i ddatblygu'r cytundeb bargen lawn.

Llywodraethu a Sicrwydd

Roedd y trefniadau llywodraethu'n cael eu hadolygu'n barod ar gyfer cyfnod cyflawni'r fargen. Roedd y Swyddogion Monitro'n bwriadu ymestyn y Cytundeb Rhyng-Awdurdod am y tro. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cafwyd llawer o sylw positif yn y wasg i arwyddo Penawdau'r Telerau ar 22ain Rhagfyr. Hefyd, siaradodd yr Arweinydd mewn digwyddiad a drefnwyd gan Sefydliad y Cyfarwyddwyr ac ArloesiAber ar 15fed Rhagfyr, gan ddod â rhwydwaith dylanwadol o arweinwyr at ei gilydd ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i drafod economi'r rhanbarth.

Gallu ac Adnoddau

Cafwyd gwybod ar lafar bod y cais am gyllid dan Flaenoriaeth 5 ESF yn symud yn ei flaen yn dda. Disgwylid iddo gael ei gymeradwyo o fewn pythefnos. Unwaith bod y cyllid wedi'i sicrhau gellid dechrau recriwtio i sefydlu'r Swyddfa Rheoli Portffolio.

Cytundeb Bargen Lawn

Roedd Swyddogion wrthi'n gofyn am ganllawiau ac eglurder gan y ddwy Lywodraeth ar y gofynion a'r disgwyliadau o ran dogfennau a manylion i gefnogi Cytundeb Bargen Lawn.

Datblygu Portffolio

Cynhaliwyd gweithdy swyddogion pellach gyda gweision sifil o'r ddwy Lywodraeth, dan gyfarwyddyd Joe Flanagan ar 16eg Rhagfyr. Roedd Swyddogion wrthi'n cwblhau drafft cyntaf Achos Busnes Portffolio Strategol, a byddent yn ymgynghori â'r Bwrdd a'r Grŵp Strategaeth Economaidd (GSE) yn fuan. Roedd yr Achos Strategol wedi'i ddrafftio'n llawn a'r Achos Economaidd wedi'i ddrafftio'n rhannol, gyda'r rhestr hir wedi'i drafftio a'r ffrydiau gwaith wrthi'n datblygu a mireinio ymhellach y rhestr fer gychwynnol. Amlinellodd CJE gynnydd pob un o'r ffrydiau gwaith.

- Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi: Penodwyd SQW i wneud gwaith mapio manwl o weithgaredd ymchwil gymhwysol ac arloesi yng Nghanolbarth Cymru.
- Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod: Ni chynhaliwyd unrhyw weithgaredd a gomisiynwyd yn ffurfiol yn y maes hwn eto.

- Digidol: comisiynwyd cymorth arbenigol i fynd i'r afael â materion cysylltedd yng Nghanolbarth Cymru.
- Ynni: roedd y prif ffocws ar ddatblygu cynnig dichonolrwydd ar yr Economi Hydrogen yng Nghanolbarth Cymru. Roedd cyllid wedi'i sicrhau drwy gais ar y cyd ar draws y ddau Grŵp Gweithredu Lleol, gyda chefnogaeth ariannol y Rhaglen Datblygu Gwledig.
- Hunaniaeth Twristiaeth wedi'i Chryfhau: Ni chynhaliwyd unrhyw weithgaredd a gomisiynwyd yn ffurfiol yn y maes hwn eto. Awgrymodd RH y gellid hyrwyddo ar y cyd â sefydliadau megis Croeso Cymru.
- Cynorthwyo Menter: roedd adolygiad o Safleoedd ac Eiddo ar droed.
- Trafnidiaeth: roedd y prif flaenoriaethau rhanbarthol dan y pennawd hwn yn cael eu hystyried fel rhan o waith parhaus Grŵp Cysylltedd a Thrafnidiaeth Rhanbarthol TCC.
- Sgiliau a Menter: gweithio i sefydlu Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.

Ymatebodd CJE a PG i bryderon a godwyd ynghylch sicrhau bod y bwrdd yn ymgysylltu ac yn ymwneud â busnesau. Pwysleisiodd y ddau nad oedd swyddogion yn gwneud penderfyniadau ar beth i'w gynnwys yn y rhestr hir, ond roeddent am sicrhau bod ffurf gyntaf y portffolio yn ei lle i'r Bwrdd allu gwneud sylwadau ac ymgysylltu arno, ac i wahodd barn a mewnbwn gan grwpiau eraill allweddol megis y GSE a'r Bartneriaeth. Rhagwelwyd y byddai hynny'n digwydd erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mawrth. Roedd cyfarfod ar y cyd o'r ddau Gabinet wedi'i drefnu ar gyfer 18fed Chwefror i'w briffio ar y cynnydd, a byddai'r GSE yn cwrdd i edrych ar yr Achos Busnes Portffolio Strategol. Croesawodd Cadeirydd y GSE y cyfle i'r grŵp adolygu'r ddogfen, a chroesawodd yn arbennig y ffaith bod cysylltedd a sgiliau wedi'u cynnwys yn yr ABPS am fod y ddau hyn wedi'u hystyried gan fusnesau fel rhwystr i ddatblygiad ers amser hir.

5.	**BWRDD: DIWEDDARIAD AR Y GYLLIDEB REFENIW 2020/21 / GMW BOARD: UPDATE ON REVENUE BUDGET 2020/21**

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y gyllideb refeniw. Byddai CJE yn siarad â'r ddwy lywodraeth am gymorth ariannol yn y dyfodol.

6.	**PARTNERIAETH SGILIAU A DYSGU RHANBARTHOL (PSDRH): DIWEDDARIAD CYNNYDD A CHAMAU NESAF / REGIONAL LEARNING AND SKILLS PARTNERSHIP (RLSP): PROGRESS BRIEFING AND NEXT STEPS**

Adroddodd NB fod cyfarfod positif iawn wedi'i gynnal â Llywodraeth Cymru i drafod y camau nesaf, amseriad a dyraniad adnoddau tu hwnt i'r £30,000 a ddyrannwyd eisoes. Roedd llythyr yn gofyn am gadarnhad o'r cyllid yn barod i'w anfon at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru. Roedd angen y cadarnhad hwn er mwyn gallu symud ymlaen i recriwtio Rheolwr ar gyfer y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol.

Byddai cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda'r Arweinwyr i ystyried aelodaeth y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol. Cytunwyd y dylai'r Bartneriaeth gael ei harwain gan ddefnyddwyr yn hytrach na darparwyr, a nodwyd y byddai'r cadeirydd yn dod o'r sector preifat.

7.	**UNRHYW FATER ARALL / ANY OTHER BUSINESS**

Dim.

8.	**DYDDIADAU CYFARFOD NESAF / DATES OF FUTURE MEETINGS**

11 Mawrth 2021 – Rhithwir
11 Mehefin 2021 – Rhithwir
29 Medi 2021 – Rhithwir
10 Rhagfyr 2021 - Rhithwir

Cynghorydd Sir Ellen ap Gwynn
Cadeirydd

DRAFT